Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 7fed Fai 2024

Yn dilyn ymlaen o'r Cyfarfod Blynyddol:

Datgan Buddiant - Bu I Phyllis Ellis ddatgan eu bod wedi rhoi llythyr ar ran yr Ysgol am gais ariannol i gludo plant sydd wedi bod yn llwyddiannus yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd I'r Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod.

Cofnodion 9fed Ebrill

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Ynyr Parri (1) Idris Thomas (2)

Materion o'r Cofnodion

Cysgodfa Bws Dinorwig

Nododd y clerc fod sawl cwyn yn cael ei dderbyn erbyn hyn, ond mae'r adeiladwr yn bwriadu cychwyn ar y Gwaith yr wythnos yma, yn dilyn gorffen y swyddi sydd ganddo ar hyn o bryd.

Arian o Ewyllys Mr. Ken Harris

Bu i'r clerc dderbyn sawl llythyr gydag awgrymiadau ar ddidoli'r arian yma.
Ysgolion Cynradd
Ysgol Brynrefail
Cylch Meithrin
Sefydlu ymddiriedolaeth
Rhai yn credu mai i fudiadau Deiniolen y dylai fynd
Eraill, dylai pob pentref elwa
Hyrwyddo Sefydlu Busnesau Lleol
Cafwyd sgwrs drwyadl ynglŷn â'r opsiynau fel cychwyn i'r drafodaeth, ac roedd pwyntiau da yn cael eu rhoi ymlaen. Cynigiwyd ein bod yn trafod ymhellach yn ein cyfarfod ym mis Gorffennaf, ar y ffordd ymlaen.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Cais Ariannol

Derbyniwyd llythyr yn datgan fod Parti canu ynghyd ac unigolyn o Ysgol Penisa'r-waun wedi bod yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Rhanbarth ac yn cynrychioli'r Sir yn Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod, Maldwyn. Yn arferol ar gais, byddwn yn cyfrannu tuag at gostau teithio neu logi bws. Gan mai ond un cais a dderbyniwyd, penderfynwyd i gyfrannu £500 i'r Ysgol tuag at y gost, gan ddymuno pob llwyddiant iddynt ym Meifod.

Gareth Griffiths (1) Rhian Evans Hill (2)

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:

C24/0274/18/DT *- 2 Tai Arthur, Penisa'r-waun*.

Gosod Pwmp Gwres Ffynhonnell aer “Vaillant arro Therm plus 5KW yng nghefn yr eiddo - Dim Gwrthwynebiad
C24/0309/18/LL - Parc Gwledig Padarn
Gwelliannau i’r adeilad presennol i gynnwys dymchwel ac ail godi estyniad ochor a gwybodaeth dehongli - Dim Gwrthwynebiad
C24/0300/18/DT - 4 Carreg y Garth, Rhiwlas
Gosod Pwmp Gwres Ffynhonnell aer yng nghefn yr eiddo - Dim Gwrthwynebiad
C24/0275/18/DT - 24 Y Ddôl, Bethel
Dymchwel darn un llawr cefn ac ochor bresennol yr eiddo a chodi estyniad deulawr i gefn ac ochor yr eiddo yn ei le.- Gwrthwynebu gan fyddai caniatáu y cais yn cymryd lle parcio 2 gar i ffwrdd o’r tŷ, a pharcio yn brin ar y stad fel mai.
C24/0276/18/LL - Hen Lyfrgell Stryd Fawr, Deiniolen
Adnewyddu Hen lyfrgell Deiniolen I’w defnyddio fel Neuadd Gymunedol. Gydag estyniad yn y cefn i ddarparu toiled hygyrch gyda chyfleusterau Newydd babi, swyddfa, cyfleusterau cwnsela a gwella mynediad cadair olwyn. - Dim Gwrthwynebiad
C24/ 0261/18/TR - Deiniolen
Uwchraddio trawsnewidydd HV a pholyn I Bolyn -H - Dim Gwrthwynebiad

Llwybrau
Llwybr Inclein Deiniolen.
Wrth fynd o lôn Garnedd ar y llwybr yma, ac wrth gyrraedd yr ail giât fochyn, mae’r postia llechi wedi cael eu clymu gyda ‘cable ties’ rhag i anifeiliaid fynd trwodd, ond nid oes neb arall yn gallu mynd trwodd chwaith. Angen sylw i’r giât yn iawn.

Awdit
2022 - 2023
O’r diwedd derbyniwyd archwiliad a ffurflen o 22-23 yn ôl gan Archwilwyr Cymru. Rhoddwyd barn Amodol ar y ffurflen, Er bod y Cyngor yn derbyn sylwadau, mae ychydig o’r sylwadau yn anghywir, megis Gwefan Y Cyngor, ac nad ydym wedi paratoi cyllideb. Diolchwyd I’r clerc am ei Gwaith trylwyr unwaith eto eleni.

Archwiliad 2023-2024

Yn dilyn archwiliad mewnol am y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2024, bu i’r clerc dderbyn y ffurflen yn ôl wedi ei archwilio gan yr archwilwyr mewnol yn y Cyngor Sir. Yn dilyn archwiliad, cafwyd eu bodloni ar sail y canfyddiadau fod y Cyngor yn rheoli arian a chyllid i safon sydd yn ddigonol i ddiwallu anghenion Y cyngor. Rhannwyd yr adroddiad gyda’r Cyngor, a chroesawyd yr adroddiad unwaith eto eleni. Cymeradwyed y Ffurflen ac arwyddwyd gan y Cadeirydd ac ardystiwyd gan y Swyddog Ariannol. Bydd y clerc yn paratoi i yrru'r ffurflen ymlaen I Archwilwyr Cymru ynghyd a’r holl ddogfennau perthnasol.

O Gwmpas y Bwrdd

Cysgodfa i Rhiwlas

Nododd Elwyn Jones fod yr hen gysgodfa ym Mhenrhos wedi eu newid ac wedi cael gosod rhai Newydd gan Draws Cambria. Ond mae’r gysgodfa wedi mynd ar goll. Y bwriad oedd cael y gysgodfa i’w gosod yn Rhiwlas. Mae am wneud ymholiadau er mwyn i ni gael gosod yn Rhiwlas.

Cafwyd cwyn fod enw tŷ a elwir fel ‘Minffordd’ yn Dinorwig wedi ei newid I ‘The View’. Cysylltu ag adran Cynllunio Cyngor Gwynedd.

Lôn Fawr Rhiwlas angen ei chwynnu a’i thacluso o’r top i’r gwaelod. Y clerc i gysylltu â thîm Tacluso I ofyn iddynt ei roi ar eu rhestr.

Tyllau o hyd yn y lôn ger Tŷ Mawr Cottages. Ysgrifennu eto I Briffyrdd.

Dathlu 50 Mlynedd yn Gynghorydd Cymunedol

Llongyfarchiadau Mawr I Phyllis Ellis. Roedd yn dathlu 50 mlynedd ers ei hethol yn gynghorydd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen. Bu I Phyllis gychwyn ar ei rôl yn cychwyn yr adrefnu llywodraethol, a hi oedd yr unig ferch ar y Cyngor y pryd hynny. Erbyn hyn mae hi yn gwerthfawrogi gwaith y merched sydd yn gynghorwyr erbyn hyn gyda’r Cyngor. Mae Phyllis wedi rhoi hir oes i’r ardal ac yn enwedig i bentref Penisa’r-waun. Yn y pumdeg mlynedd mae hi wedi eistedd ar y Cyngor, er ei bod wedi gweld sawl cynghorydd yn mynd a dod - dim ond 3 clerc mae’r Cyngor wedi ei weld yn ystod y cyfnod. Diolch yn fawr iawn i chi Phyllis, mae popeth rydych wedi ei wneud ac yn ei wneud i’r gymuned yn amhrisiadwy.

Cadarnhau Taliadau:

691 - £676.89 Yswiriant Blynyddol y Cyngor

692 - £500 Ysgol Gymunedol Penisa’r-waun

693 - £120.00 Un Llais Cymru